Meithrinfa Medra i agor yn fuan

MAE Mudiad Ysgolion Meithrin yn edrych ymlaen yn eiddgar i agor ei bedwerydd feithrinfa ddydd, wrth i Meithrinfa Medra yn Llangefni, Ynys Môn, agor ei drysau am y tro cyntaf fis Mai eleni.

Mae'r feithrinfa ddydd fodern hon wedi ei lleoli yn 'Canolfan Plant Llangefni' (un o ganolfannau integredig Mudiad Ysgolion Meithrin) yn Llangefni.

Bydd y feithrifa yn cynnig gofal dydd ac addysg o ansawdd i 60 o blant rhwng chwe wythnos oed ac oed ysgol.

Ym Meithrinfa Medra bydd pob plentyn yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a fydd yn hybu pob agwedd o'i ddatblygiad.

Bydd gan y feithrinfa amrywiaeth eang o deganau, llyfrau a deunyddiau crefft ac arlunio, cyfleusterau chwarae dŵr a thywod ynghyd â llawer o offer sy'n annog chwarae dychmygus.

Mae sesiynau gofal dydd llawn (8.00 am – 6.00 pm) ar gael neu sesiynau hanner diwrnod (8.00am – 1.00pm, neu 1.00pm – 6.00 pm).

Mae cogydd profiadol wedi ei apwyntio'n ddiweddar, ac mae adnoddau cegin penigamp ar gael yn y feithrinfa, felly bydd prydau a byrbrydau maethlon yn cael eu gweini i'r plant yn ddyddiol.

Mae tîm o staff profiadol a brwdfrydig wedi cael eu penodi'n ddiweddar.

Iona Roberts fydd rheolwr y feithrinfa a Lowri Owen fydd y dirprwy reolwr. Maent wedi dechrau yn eu swyddi ers dechrau mis Ebrill ac wrthi'n paratoi ar gyfer agoriad y feithrinfa ddechrau fis Mai.

Gofal o ansawdd: Mi fydd y plant ym Meithrinfa Medra yn cael hwyl wrth ddysgu trwy chwarae

Meddai Iona Roberts, Rheolwr Meithrinfa Medra:

"Hapusrwydd bob plentyn fydd blaenoriaeth Meithrinfa Medra. Mi fyddwn ni'n cynnig y gofal gora' posib mewn awyrgylch hapus a diogel ac yn gwneud yn siŵr fod bob plentyn yn cael cyfle i ddysgu trwy chwarae er mwyn datblygu i'w llawn botensial. Mi fyddwn ni'n dilyn y cwricwlwm blynyddoedd cynnar cenedlaethol gan wneud yn siŵr y bydd bob plentyn yn cael y cychwyn gorau posib ym mhob agwedd o'i addysg."

Iona Roberts, Rheolwr Meithrinfa Medra

Meddai Hywel Jones, Prif Weithredwr Mudiad Ysgolion Meithrin: "Mae Meithrinfa Medra yn ychwanegiad cyffrous i feithrinfeydd dydd Mudiad Ysgolion Meithrin. Rwy'n edrych ymlaen i gael croesawu'r plant a'u teuluoedd i'r cyfleusterau ardderchog sy'n cael eu cynnig yn y feithrinfa."

Mae modd i rieni'r ardal fanteisio ar y gefnogaeth ychwanegol fydd ar gael gan staff Mudiad Ysgolion Meithrin, staff Dechrau'n Deg a staff Gwasanaeth Gwybodaeth Plant, a fydd wedi eu lleoli o fewn Canolfan Plant Llangefni.

Ychwanegodd Hywel Jones: "Rwy'n hynod werthfawrogol o'r bartneriaeth sydd wedi datblygu rhwng Mudiad Ysgolion Meithrin a Chyngor Sir Ynys Môn, a'n galluogodd i adeiladu'r feithrinfa hon."

● Os hoffech gofrestru eich diddordeb mewn defnydd posib o'r feithrinfa, neu os hoffech becyn gwybodaeth ffoniwch: (01970) 639639; neu tu allan i oriau swyddfa, gallwch adael neges ar y rhif rhadffon: 08000 11 22 33.
I lenwi ffurflen i gofrestru diddordeb ar-lein, ewch i: www.mym.co.uk

meithrinfa medra DAY NURSERY, LLANGEFNI

Yn agor Mai 2008 Opening May 2008

Meithrinfa newydd yn agor Mai 2008
8.00am - 6.00pm, Llun - Gwener

Bydd Meithrinfa Medra yn Llangefni yn cynnig gofal ac addysg o'r ansawdd gorau i hyd at 60 o blant o chwe wythnos oed hyd at oed ysgol.

Os am gofrestru eich diddordeb ar gyfer defnydd posib o'r feithrinfa, neu am becyn gwybodaeth, ffoniwch:

01970 639639

Y tu allan i oriau gwaith arferol gallwch adael neges ar y rhif rhadffon 08000 11 22 33, neu gallwch lenwi ffurflen gofrestru diddordeb ar-lein.

www.mym.co.uk

New day nursery opening May 2008
8.00am - 6.00pm, Monday - Friday

Meithrinfa Medra in Llangefni will offer quality childcare and education for up to 60 children aged between six weeks old and school age.

If you would like to register your interest for possible use of the nursery, or if you would like an information pack, please phone:

01970 639639

Or, out of office hours, you may leave a message on the freephone 08000 11 22 33, or to fill in an on-line form to register interest, visit

www.mym.co.uk

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Rheolir Meithrinfa Medra gan Mudiad Ysgolion Meithrin
Meithrinfa Medra is managed by Mudiad Ysgolion Meithrin

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1

Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government